COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD O BELL - DROS MICROSOFT TEAMS DDYDD AM 09:30

Yn bresennol

S Maughan – Cadeirydd

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| M J Williams | G Thomas | Mr P Clarke | G Walter |
| P Baker | R Lynch | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheolaethol |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Amanda Williams fuddiant personol yn eitem 3, gan ei bod yn briod gyda'r Cynghorydd Martin Williams.
Datganodd y Cynghorydd Martin Williams fuddiant personol yn eitem 3, gan ei fod yn briod gyda'r Cynghorydd Amanda Williams.
Datganodd y Cynghorydd Graham Walter ddiddordeb personol yn eitem 6, gan ei fod wedi datgan diddordebau yn flaenorol yn rhai o'r achosion a gymerwyd yn y 12 mis diwethaf.

## 163. Safonau Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Gwahoddedigion:<br>Y Cynghorydd John Spanswick - Arweinydd y Cyngor, Grŵp Llafur<br>Y Cynghorydd Amanda Williams - Arweinydd Grŵp Cynghorwyr Annibynnol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr<br>Y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas - Arweinydd Grŵp y Gynghrair Ddemocrataidd<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad hwn gan gyflwyno'r Arweinwyr Grŵp er mwyn iddynt roi cyflwyniadau ynghylch ymddygiad a hyfforddiant y grwpiau dan sylw dros y 12 mis blaenorol. Cyflwynodd yr Arweinydd ei adroddiad a chododd aelodau o'r Pwyllgor gwestiwn ynghylch adolygiadau cyfredol. Yna cyflwynodd y Cynghorydd A Williams ei hadroddiad hi, gan gydnabod bod problemau gyda chwblhau peth o'r hyfforddiant ar-lein, ac anawsterau gydag ailadrodd o fewn deunydd hyfforddiant presennol y bu i'r Prif Swyddog - Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Rheoleiddio addo ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w adolygu. Cododd y Pwyllgor gwestiwn ynghylch mynediad i hyfforddiant i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol. Cyflwynodd y Cynghorydd R Penhale-Thomas ei adroddiad, gan nodi'r angen am hyrwyddo pellach er mwyn sicrhau bod aelodau yn cwblhau hyfforddiant ar-lein.<br><br>Roedd y cwestiynau a godwyd i'r holl Arweinwyr Grŵp yn cynnwys:<br>• Safoni dulliau o adolygu hyfforddiant<br>• Monitro postiadau Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• Cyfrifoldeb a throsolwg posib dros Gynghorwyr Tref a Chymuned<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd yr Arweinwyr Grŵp anawsterau wrth reoli ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol gan aelodau o'r cyhoedd tuag at Gynghorwyr, a ffyrdd posib o fynd i'r afael â'r broblem. Awgrymodd y Pwyllgor ychwanegu eitem sefydlog ar Safonau Ymddygiad i'w chynnwys mewn cyfarfodydd Grŵp, a chytunodd yr Arweinwyr Grŵp gyda hyn. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Gorffennaf 2024 |

## 164. Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad hwn ar gyfer nodi ar fater Adolygiad Penn argymhellion yn ogystal â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y dilyniant i'r adroddiad.<br><br>Cyflwynodd y Pwyllgor gwestiwn ynghylch amserlen unrhyw ddiweddariadau pellach, a chawsant sicrwydd |

| | |
|---|---|
| | y byddent yn cael eu diweddaru ynghylch unrhyw ddatblygiadau.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Gorffennaf 2024 |

## 165. Adroddiad Blynyddol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad hwn sy'n adolygu gwaith y Pwyllgor yn ystod 2023/24.  Nodwyd bod y Pwyllgor wedi ceisio llenwi lle gwag ar gyfer aelod lleyg, ond bod hynny wedi bod yn aflwyddiannus oherwydd diffyg diddordeb, ond bydd y lle gwag yn cael ei ail-hysbysebu yn yr Hydref.<br><br>Nododd yr Aelodau nad oedd rhai Cynghorwyr Tref a Chymuned wedi cael eu rhestru yn yr adroddiad, ac y dylid newid hyn cyn i'r eitemau gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Awgrymwyd y dylid rhoi gwybod i'r clerciaid bod yr adroddiad llawn wedi cael ei weld a'i gymeradwyo.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Gorffennaf 2024 |

## 166. Adroddiad Statws ynghylch Cwynion a wnaed o dan y Cod Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ynghylch cwynion a atgyfeiriwyd at y Swyddog Monitro i'w nodi.  Cododd y Pwyllgor gwestiynau ynghylch cysondeb wrth glywed yr archwiliadau ger eu bron, gyda'r posibilrwydd o hyfforddiant pellach i'w cynorthwyo wrth ymgymryd ag archwiliadau o'r fath.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Gorffennaf 2024 |

## 167. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Gorffennaf 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10:58.